# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Paul Ellis, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Margaret Murley Roberts, Alwen Pennant Watkin a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Trefor Ll Hughes MBE ac Aled Morris Jones |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Gary Pritchard ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

**2 ETHOLIAD IS-GADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

**3 YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodir uchod.

**4 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**5 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2025 yn gywir.

**6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**7 APWYNTIO STAFF**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid wedi ymddiswyddo ac y byddai'n gadael yr Awdurdod ddiwedd 2025. Mae cwmpas y swydd bresennol yn eang mewn perthynas â chyfeiriad strategol nifer o swyddogaethau allweddol o fewn y Cyngor, gan gynnwys Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth, Trawsnewid, Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol, Cyfathrebu a Chyswllt Môn, sef prif ganolfan gyswllt y Cyngor. Ar ôl ystyried nifer o wahanol opsiynau ar gyfer llenwi'r swydd, cynigiwyd bod dwy swydd Pennaeth Gwasanaeth yn cael eu creu er mwyn rhannu'r cyfrifoldebau presennol, sef :-

- Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer
- Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

**PENDERFYNWYD :-**

- **Hysbysebu'r ddwy swydd yn allanol am gyfnod o 3 wythnos, yn amodol ar gadarnhau bod arian ar gael ar gyfer y ddwy swydd;**
- **Bod teitl y swydd Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Gwasanaeth Cwsmer yn cael ei newid i Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer;**
- **Bod proses safonol y Cyngor yn cael ei dilyn ar gyfer y broses statudol o arfarnu gwahanol nodweddion ymgeiswyr am uwch swyddi sydd yn gyson a pherthnasol i'r hysbyseb allanol, fel y nodir yn yr adroddiad;**
- **Bod rhaid i unigolion a gynhwysir ar y rhestr fer gyrraedd y trothwy ar gyfer pob elfen o'r broses recriwtio cyn mynd ymlaen am gyfweliad terfynol gan y Pwyllgor Penodiadau.**

**Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD**
**CADEIRYDD**